PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MERCHER, 14 CHWEFROR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Owen Jones, Caerhirfryn, Lay, Mackie, Owen a/ac Wong |

35 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Hill-John a Wood.

36 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiadau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau a Deddf Llywodraeth Leol 1972:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Patel | Eitem 4 | Aelod Bwrdd Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Lay | Eitem 4 | Aelod Bwrdd Anweithredol Bws Caerdydd |

37 : CYNIGION AR GYFER CYLLIDEB DDRAFFT 2018/19 – TROSOLWG CORFFORAETHOL (10:10AM TAN 10:55AM)

Cafodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi'r cyd-destun craffu i'r adrannau hynny o Gynllun Corfforaethol Drafft 2018-2021 y Cyngor a'r cynigion ymgynghori ar gyllideb ddrafft 2018/19 y Cyngor sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny dan gylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol. Gwahoddwyd yr Aelodau Cabinet perthnasol, ynghyd â swyddogion.

Cafodd aelodau wybod yng Ngorffennaf 2017 fod gweinyddiaeth newydd y Cyngor wedi nodi rhaglen bolisi ac ymrwymiadau cyflawni cysylltiedig o'r enw 'Uchelgais Prifddinas' a sefydlodd brif flaenoriaethau'r Cabinet i'r tymor diensig a chamau gweithredu i ddatblygu economi'r ddinas, tra'n sicrhau bod pawb yn cael budd o hynny. Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Lles yn ddogfennau allweddol er mwyn cyflawni Uchelgais Prifddinas wrth iddynt drosi blaenoriaethau'r cyngor yn amcanion sefydliadol cyflawnadwy. Strwythurir y Cynllun Corfforaethol o gylch blaenoriaethau Uchelgais Prifddinas a'r saith amcan lles ac mae'n nodi'n glir yr hyn a wna'r Cyngor.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys Mesurau a thargedau perfformiad a fydd yn galluogi'r Cyngor i fonitro'r gwasanaethau a ddarperir.

O ran y sefyllfa gyllidebol, cafodd y Pwyllgor wybod o 6 Chwefror 2018 fod y Cygnor yn wynebu bwlch o tua £19 miliwn yn y gyllideb yn 2018/19. Yn ogystal â'r diffyg mae'r Cyngor wedi nodi pwysau ychwanegol mew cyfarwyddiaethau o £1.474 miliwn, gan ddwyn cyfanswm y diffyg i £20.702 miliwn. Nodwyd arbedion o £14.296 miliwn gan arwain at godi £6.406 miliwn o Dreth Gyngor ychwanegol, fel y nodir isod.

Dangoswyd cynigion arbedion cyfarwyddiaethau o £14.296 miliwn yn Atodiad 2 yr adroddiad. Roedd:

- £1.879 miliwn o gostau cyflogeion
- £9.391 miliwn o wariant arall
- £3.026 miliwn o incwm uwch

Mae'r cynnydd yn y Dreth Gyngor a'r arbedion a nodwyd yn cyfrif am ddwy o'r pedair elfen y mae'r Cyngor wedi'u nodi fel rhan o strategaeth cyllideb 2018/19. Y ddwy elfen arall yw cap o £30% ar dwf niferoedd ysgolion (nid disgyblion) a defnyddio cronfeydd wrth gefn.

Croesawodd y Cadeirydd Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid, i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y swyddogion i wneud cyflwyniad a grynhodd amlinelliad cynigion ariannu Llywodraeth Cymru a sut yr effeithiai'r rhain ar wasanaethau.

Gwahoddwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd i roi sylwadau, ceisio sicrwydd neu ofyn cwestiynau ar y wybodaeth dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd aelodau bod gwariant cyfalaf ar gynnydd ac y câi cost y taliadau llog cynyddol eu talu o'r cyfrif refeniw.
- Felly, bydd llai o refeniw i'w wario ar wasanaethau craidd. Gofynnwyd i swyddogion roi sylwadau ac egluro'r risgiau cysylltiedig, a hefyd roi sylwadau ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Dywedodd swyddogion fod y cynnydd mewn gwariant cyfalaf wedi'i ysgogi gan ddyheadau'r awdurdod yn benodol drwy raglen wella ar y cyd Llywodraeth Cymru/y Cyngor o ran arian Banc B i ysgolion. Mae'r rhaglen yn cynnif £300 o fuddsoddiad yn ysgolion Caerdydd nad oes modd ei gyflawni ond drwy fenthyca fforddiadwy. Amlygir gwariant refeniw ar gyllid cyfalaf yn adroddiad cyllideb 2018/19. Mae gwariant refeniw ar gyllid gyfystyr â 16.5%. O'i gymharu â 2011/12 rhagwelir i gyfradd 2022/23 gynyddu gan 23.6% a rhaid i swyddogion gweithwyr proffesiynol cyllid sicrhau bod ymrwymiadau benthyciadau'n gallu cael eu talu.
  Gofynnodd aelodau p'un ai a ystyrir cyfraddau llog. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod benthyca allanol yn cael ei sicrhau ar gyfraddau llog sefydlog am gyfnod y benthyciad. Nid yw'n bosibl benthyca cyn bod angen ond mae modd edrych ymlaen 18 mis i werthuso p'un a ddylid benthyca cyn i unrhyw gyfradd llog bosibl godi. Cafodd yr awdurdod gyngor gan ymgynghorwyr y trysorlys ac os yw'n debygol y bydd cynnydd yn y gyfradd llog rhoddir ystyriaeth i ba un a fyddem am fenthyca ai peidio. Cafodd aelodau wybod bod y materion hyn wedi'u delio â nhw yn y fframwaith sy'n rhan o adroddiad y gyllideb.

- Nododd aelod fod cynigion arbedion wedi'u hasesu am risg o £12.11 miliwn wedi'u cynllunio. Cafodd y swyddogion eu gofyn i egluro'r £1.434 miliwn o gynigion arbed nad oedd cynllun ar eu cyfer. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y rhain yn arbedion yr oedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch eu cyflawni, neu pan fod cynlluniau ar waith, nad oedd digon o fanylder.

- O ran gwariant rhaglen cyfalaf, gofynnwyd Aelodau p'un ai a yw buddsoddiad preifat wedi'i gynwys dan 'grant/cyfraniadau eraill'. Dynododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod buddsoddiad preifat yn cael ei ddangos yn y ffigurau dan 'buddsoddi preifat/cyrff cyhoeddus eraill'.

- Gofynnwyd i swyddogion ymhelaethu ar y cyfrifoldebau newydd oedd ar y Cyngor fel rhan o setliad terfynol Llywodraeth Cymru. Cafodd aelodau wybod bod y cyfrifoldebau newydd yn ymwneud ag Atal Digartrefedd (£836k) a chynnydd yn y cap gofal preswyl (£636k).

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

38 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2018 TAN 2021 A CHYNIGION CYLLIDEB DDRAFFT 2018/19 (1010:55AM TAN 1PM)

*Gwnaed y datganiadau buddiant canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:*

| | |
|---|---|
| *Y Cynghorydd Michael* | *Ymddiriedolwr Sefydliad Elusennol â chontract gwastraff â'r awdurdod* |
| *Y Cynghorydd Lay* | *Aelod Bwrdd Anweithredol Bws Caerdydd* |
| *Y Cynghorydd Patel* | *Aelod Bwrdd Anweithredol Bws Caerdydd* |

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Caro Wild, Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth ac Andrew Gregory, Cyfarwyddwr, i'r cyfarfod. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Wild wneud datganiad.

Dywedodd y Cynghorydd Wild fod y cynigion cyllideb yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau sylfaenol. Mae'r cynigion cyllideb yn caniatau ar gyfer rheoli traffig yn well ac yn cydnabod dirywiad mannau cyhoeddus yng nghanol y ddinas. Mae hefyd newid clir at deithio llesol ac ymrwymiad i fuddsoddi mewn adnewyddu asedau. Mae'r £6 miliwn a ddyrannwyd tuag at ddatblygu traffyrdd beicio yn newid graddol at dargedau teithio llesol.

Cafodd aelodau gyflwyniad ar gynigion y gyllideb sy'n berthnasol i'r Portffolio Cynllunio a Thrafnidiaeth Strategol, ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Credai aelodau'r Pwyllgor fod y gyfnewidfa drafnidiaeth newydd yn dibynnu ar gyfnewidfeydd bach strategol yn cael eu cyflawni.
- Gofynnwyd i swyddogion egluro pam fod cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn araf. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod angen i'r awdurdod sicrhau bod seilwaith o'r fath yn cael ei gwblhau mewn ffordd gosteffeithiol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr drosolwg o'r materion y daethpwyd ar eu draws a arweiniodd at oedi cynllun Waungron Road.
  O ran ymestyn y parth cyflymder 20mya – gofynnodd aelodau pa fonitro sy'n cael ei wneud ac i ragor o wybodaeth am y broses o werthuso a monitro. Dywedodd y Cyfarwyddwr fel rhan o'r cynllun peilot fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor. Cynigir adolygiadau parhaus gan y timau trafnidiaeth. Nid oes proses ar waith i fonitro'r parthau 20mya ond roedd swyddogion yn hapus i archwilio sut y

gallai monitro ddigwydd yn y dyfodol. Dywedodd y Cadeirydd yr hoffai'r Pwyllgor weld mwy o dystiolaeth o ba mor llwyddiannus yw'r cynlluniau a sut y mae cynnydd yn cael ei fonitro. Dywedodd yr Aelod Cabinet y disgwylid adroddiad ym Mawrth 2018.

- Croesawodd yr aelodau'r cynigion ar gyfer gwella'r rhwydwaith beicio. Gofynnwyd i swyddogion egluro goblygiadau i systemau cyfredol ar ffyrdd a effeithiwyd fel parcio talu ac arddangos. Dywedodd swyddogion fod peiriannau talu ac arddangos yn gallu cael eu hadoli'n hawdd.

- Gofynnodd aelodau am fwy o fanylion am y cynlluniau i ffyrdd yn ardal y traffyrdd beicio. Dywedodd y swyddogion fod y rhwydwaith beicio ehangach yn cael ei ymgynghori arno a bod y traffyrdd beicio yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r ddogfen honno. Er enghraifft, byddai gan Senghennydd Road gysylltiadau o Ysbyty'r Waun tua Heol Casnewydd. Fodd bynnag, ni fyddai'r cynllun ar ei ben ei hun a byddai'n rhan o rwydwaith ehangach.

- Cyfeiriodd aelodau at uwchraddio systemau trafnidiaeth deallusol (ystafell reoli TCC) a gofynnwyd p'un a ellid cynllunio uwchraddio pellach yn y dyfodol bob blwyddyn. Dywedodd swyddogion fod yr ystafell reoli'n gweithredu ar feddalwedd Microsoft nas cefnogir mwyach. Yn y dyfodol, rhoddir ystyriaeth i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a defnyddio ystafell reoli amlswyddogaeth fel adnodd a rennir.

- Croesawodd aelodau fuddosddiad yn ffyrdd cerbydau'r ddinas. Fodd bynnag, gwnaed y mwyafrif o'r buddsoddiad yn 2018/19. Gofynnodd aelodau a ddylai'r buddsoddiad gael ei ledaenu'n fwy cydradd. Credai aelod fod y buddsoddiad wedi'i grynhoi yn y canol a'r arc ddeheuol ac awgrymwyd y gallai'r buddsoddiad gael ei ledaenu'n fwy cydradd ar draws y ddinas gyfan. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod yr awdurdod yn mabwysiadu dull 'dinas gyfan' a bod hefyd gysylltiadau i'r cynlluniau teithio llesol ac adfywio. Mae pwysau ychwanegol ar yr ardal ganolog a bydd hefyd ffocws ar ardaloedd o amddifadedd. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr awdurdod yn gwybod am ei lwybrau cymudo ac yn cynnwys ardaloedd yng ngogledd y ddinas. Defnyddir proses dechnegol o fesur dwysedd i flaenoriaethu cynlluniau. O ran arian ychwanegol yn 2018/19, dywedodd swyddogion fod £2.571 miliwn ychwanegol yn llithriant; taliad untro o'r dull gwydnwch ariannol.

- Trafododd y Pwyllgor oblygiadau methiant mawr yn Argae Parc y Rhath. Cafodd aelodau wybod yn dilyn methiant argae yn Swydd Efrog fod y Ddeddf Argae wedi'i had-alinio, a ac ailddosbarthwyd Llyn Parc Y Rhath drwy asesiad peirianneg. Mae angen i'r awdurdod bellach weithredu i fodloni gofynion y Ddeddf.

- Llinell 49 – Gofynnodd aelodau beth oedd y £212,000 o gynigion cyllideb yn ymwneud ag ef. Dywedodd swyddogion fod y llinell cyllideb yn ymwneud â'r gwasanaeth yn cynddu incwm o fusnesau ar gyfer Trwyddedau Priffordd, trwyddedau Ffrâm-A ac ati.

- Llinell 63 – Gofynnwyd i swyddogion egluro ystyr y term 'cynllunio cyffredinol'. Dywedodd swyddogion fod y llinell hon yn ymwneud â chynhyrchiant gwell o ganlyniad i lai o alw methiant. Er enghraifft, mae gwelliannau i oleuadau stryd bellach yn golygu y bydd y gwasanaeth yn gwybod pryd mae goleuadau stryd

wedi methu ac felly gweithredwyr a oedd yn cynnal yn ffurfiol profion ffyrdd y gellir eu dosbarthu mewn ardaloedd eraill.  Amcangyfrifwyd y byddai hyn yn cynyddu cynhyrchiant gan 30% i 40%.  Gofynnodd aelodau a oedd hwn yn ddisgwyliad realistig a holwyd pam ei fod yn y gyllideb gan nad oedd cyllun manwl ar waith. Credai swyddogion fod y cyfle i gyflawni arbedion yn realistig a dywedwyd bod y cynnig yn cael ei fonitro bob mis.

- Llinell 61 – Gofynnodd aelodau am fwy o fanylion ar y trefniadau cydweithio y cyfeirir atynt.  Dywedodd y swyddogion fod yr awdurdod am gydweithio ag awdurdodau eraill megis trafnidiaeth ysgol, sgiliau dysgu teithio dysgwyr, projectau ‘sgwteri i ysgolion cynradd’; lle gall yr awdurdod roi’r gwasanaethau hyn i awdurdodau eraill.

- Llinell 94 – benthyciad i Drafnidiaeth Dinas Caerdydd.  Gofynnodd aelodau beth oedd diben y benthyciad.  Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau wybod gan fod Bws Caerdydd yn is-gwmni a berchenogir yn llawn o’r awdurdod ni allant ond â benthyg drwy’r Cyngor.  Bwriad y benthyciad £2 filiwn yw ei roi tuag at brynu cerbydau newydd a bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei wneud.  Mae’r Cabinet eto i ystyried yr achos busnes llawn.

- Llinell 35 – Gofynnodd aelodau am fwy o fanylion o’r gwariant coridor bysus. Rhoddodd swyddogion wybod bod y gwariant yn gysylltiedig â chyfnewidfa fysus Waungron Road a choridorau bysus yn Penhill a Heol Y Gadeirlan.  Pennwyd adnoddau i ddatblygu’r project, sydd wedi’i ohirio.

- Llinell 34 – Dywedodd swyddogion fod potensial i gael cyfnewidfa fysus yn Ysbyty Athrofaol Cymru.  Bydd y proejct yn ariannu ac yn cael ei gyflawni gan Ysbyty Athrofaol Cymru.  Mae trafodaethau’n mynd rhagddynt.

- Trafododd y Pwyllgor gyflawni Cyfnewidfa Fysus Waungron Road.  Credai aelodau bod angen cyflawni rhwydwaith o hybiau llai ar yr un adeg â’r Gyfnewidfa Drafnidiaeth.  Nododd swyddogion nad oedd y Gyfnewidfa Drafnidiaeth yn uniongyrchol ddibynnol ar hybiau clchol; er bod rhywfaint o ryngddibyniaeth, nid ydyntn gyd-ddibynnol.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

39 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD – Gwahardd aelodau’r cyhoedd yn ystod y dafodaeth ar yr eitem ganlynol ar sail y ffaith fod yr adroddiad wedi’i eithrio rhag cael ei gyhoeddi drwy baragraffau 14 a 21 Rhan 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

40 : ATODIAD 10 – FFIOEDD A CHOSTAU WEDI’U HEITHRIO – (1PM TAN 1:15PM)

Trafododd aelodau ystod o ffioedd a chostau a nodir yn Atodiad 10 yr adroddiad.

41 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2018 I 2021 A CHYNIGON CYLLIDEBOL DRAFFT 2018/19S - GLANHAU STRYDOEDD, AILGYLCHU A'R AMGYLCHEDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylched a Tara King, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Masnachol a Chydweithredu, i'r cyfarfod.

Cafodd aelodau gyflwyniad ar gynigion y gyllideb sy'n berthnasol i Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd, ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd aelodau pa fesurau oedd ar waith i wella presenoldeb a gwella effeithlonrwydd mewn casgliadau gwastraff domestig.
- Cafodd y Pwyllgor wybod bod presenoldeb yn gwella petai'r cyfeiriad yn parhau, cyflawnwyd tua £50k ar gostau asiantaeth. Roedd polisïau presenoldeb yn cael eu rhoi ar waith yn fwy trylwyr a gymhlethid drwy fentrau gwella iechyd megis Clinigau Wellman. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cyflwyno dysgu sgiliau hanfodol sydd wedi galluogi uwchsgilio'r gweithle a chyfleoedd i adleoli staff. Ymhlith y mesurau i wella effeithlonrwydd roedd cyflwyno technoleg mewn cerbydau a lleihau'r methiant mewn galw. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y casgliadau a gollwyd yn cael eu lleihau a bod effeithlonrwydd yn gwella.
  Gofynnodd aelodau pa ganran o ostyngiad mewn lefelau absenoldeb oherwydd salwch sydd ei angen i gyflawni'r arbediad £50k a dargedwyd yn y gyllideb. Dywedodd swyddogion fod absenoldeb salwch ar hyn o bryd yn 15 ar draws y Gwasanaethau Masnachol a Chydweithredol a'r nod oedd lleihau lefelau salwch i rhwng 12 a 13 diwrnod. Gofynnodd aelodau a oedd targedau salwch yn ddigon uchelgeisiol. Dywedodd swyddogion fod gweithredwyr gwastraff mewn perygl gwaeth o absenoldeb salwch oherwydd eu hamodau gwaith a'u bod felly'n fwy agored i fynd yn sâl. Gwnaed llawer i fynd i'r afael â'r mater hwn a rhoi ar waith ddulliau cefnogol. Credai swyddogion fod y polisi Absenoldeb Salwch yn cael ei roi ar waith yn gadarn a bod y targedau'n ddigon uchelgeisiol.

- Llinell 88 – Gofynnodd aelodau a oedd rhagor o fenthyca o ran effeithlon ynni wedi'i gynnwys yn y mesur effeithlonrwydd ynni yn Neuadd y Sir. Ymatebodd yr Aelodau Cabinet gan ddweud taw cyfrifoldeb y Cyngor oedd bod mor effeithlon â phosibl lle bynnag y gall fod. Mae gan yr awdurdod 500 o adeiladau ac mae'r Tîm Ynni'n eu cefnogi oll. Caiff y benthyg ychwanegol ei fuddsoddi yn y cynlluniau 'Buddsoddi i Arbed', y bydd y rhan fwyaf mewn ysgolion.

- Llinellau 64-68 – mewn perthynas â phrosesau busnes a digideiddio – roedd yr arbedion hynny mewn perygl â graddfa Coch/Ambr ac Ambr/Gwyrdd – gofynnodd y Pwyllgor i swyddogion egluro'r risgiau cynhenid a oedd yn gysylltiedig â'r arbedion hyn a sut y cânt eu rheoli. Dywedodd y swyddog fod y risgiau wedi'u cydnabod ac y bydd yr awdurdod yn cyflogi Prif Swyddog Digidol. Roedd angen cysondeb o ran amserlennu a rheoli project. Fodd bynnag, credai ysgolion fod cyfleoedd a bod yr awdurdod yn ynrwymedig i symud yr agenda yn ei blaen.

- Trafododd y Pwyllgor opsiynau i greu mynwent newydd yn ngogledd y Ddinas. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod sawl dewis arall yn cael eu hystyried gan gynnwys y posibiliad o ddefnyddio rhan o Fferm Draenen Pen-Y-Graig. Roedd trafodaethau â'r lesddeiliaid yn mynd rhagddynt a disgwylir adroddiad Cabinet ar y mater yn y dyfodol agos.

- Cyfeiriodd aelodau at yr £120k o arbedion yn y Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog a gofynnwyd am eglurhad pellach. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y rhain yn ymwneud â chrynodi'r fflyd ac arbedion o brynu fflyd.

- Llinell 38 – Atal y Perygl o Lifogydd – Dywedodd swyddogion fod y llinell gyllideb hon yn ymwneud â chynlluniau bach mewn parciau a rhandiroedd, gan hefyd glirio ceuffosydd a draeniau.

- Llinell 9 – Fferm Ynni Haul, Ffordd Lamby – Gofynnodd aelodau a fydda''r awdurdod yn berchen ar gyfleuster o'r fath ei hun a ph'un ai a fyddai'r pŵer a grewyd yn cael ei ddefnyddio i bweru cerbydau'r fflyd. Dywedodd swyddogion fod gan yr awdurdod gyfle sylweddol i gyflawni'r project, ond byddai contractau ochr â thrydydd partïon yn gwella'r achos busnes. Byddai codi ar gerbydau'r fflyd hefyd yn sicrhau mwy o fuddion i'r achos busnes. Dywedodd yr Aelodau Cabinet fod cyfleoedd yn cael eu hystyried a bod llu o fentrau fel y Strategaeth Aer Glân a cherbydau newydd y fflyd yn dod ynghyd ac y caent eu datgelu'n y dyfodol agos.

- Llinell 57 – Gwastraff Masnach – Gofynnodd aelodau o le deuai'r masnach ychwanegol a pham fod y llinell gyllideb hon mewn perygl coch/ambr. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y gwasanaeth wedi cyflwyno gwasaaeth sgip masnachol gystadleuol, fu'n llwyddiannus yn y camau cynnar. Mae'r awdurdod wedi cyhoeddi ei fwriad i godi dros 1000 o dai Cyngor newydd yn y Ddinas yn ystod y weinyddiaeth hon ac y gallai'r projectau hyn o bosibl ddefnyddio gwasanaeth sgip y Cyngor. Gwyddai swyddogion am yr angen i greu incwm ac roedd yr Aelod Cabinet yn hyderus y gall yr awdurdod gyflawni'r gwasanaeth hwn. Gofynnodd aelodau pa mor gyflawnadwy yw'r targedau arbedion. Dywedodd swyddogion fod y gwasanaeth wrthi'n rhagori ar ei dargedau ac yn gwella ei fesurau cadw busnes. Roedd hefyd brojectau cynhyrchu incwm eraill ar y gorwel ac roedd swyddogion yn hyderus bod modd cyflawni'r targedau cynhyrchu incwm.

- Trafododd y Pwyllgor y cais pwysau ariannol o £523k i wneud yn iawn am y gostyngiad mewn incwm ailgylchu. Dywedodd swyddogion fod y ffigurau'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau, gan fod y marchnadoedd hyn yn dal yn ansefydlog a disgwylir i bethau waethygu cyn gwella. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y marchnadoedd yn gofyn am ansawdd gwell o ran deunydd i'w 'ilgylchu. Mae elfennau yn y gyllideb sydd wedi'i anelu at gefnogi lliniaru i'r diben hwn, gan gynnwys cynllun peilot ar gyfer gwahanu gwydr a'r peiriant didoli awtomatig yn CAD.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

42 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 17 Ebrill 2018.

43 : GOHEBIAETH YN DILYN CYFARFOD Y PWYLLGOR

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 pm